

## **RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion rhithiol a gynhaliwyd ar 6 Ebrill, 2022.**

*[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.*

*[Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].*

- Yn bresennol:** Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Robin Williams (Is-Gadeirydd am y cyfarfod hwn yn unig)
- Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric W Jones, Dafydd Roberts, Ieuan Williams.
- Y Cynghorydd Richard A Dew – Aelod Portffolio - Cynllunio
- Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Richard O Jones
- Hefyd yn bresennol:** Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr Aled M Jones (cais 12.2); Margaret M Roberts (cais 12.2).
- Y Cynghorwyr Bob Parry OBE FRAGS, Alun Roberts.

1.00 o'r gloch - 1.55 o'r gloch yp

<b>RHIF YR EITEM A'R PWNC</b>	<b>2 DATGANIAD O DDIDDOREB</b>
<b>PENDERFYNIAD</b>	Datganodd y Cynghorydd K P Hughes ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas â chais 7.1.  Datganodd y Cynghorydd Nicola Roberts ddiddordeb personol sy'n rhagfarnu mewn perthynas â chais 11.1.
<b>RHIF YR EITEM A'R PWNC</b>	<b>3 COFNODION</b>
<b>PENDERFYNIAD</b>	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.
<b>RHIF YR EITEM A'R PWNC</b>	<b>4 YMWELIAD SAFLEOEDD</b>

PENDERFYNIAD	Cadarnhawyd bod cofnodion yr ymweliad safle rhithwir a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2022 yn gywir.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>5 SIARAD CYHOEDDUS</b>
PENDERFYNIAD	Roedd Siaradwyr Cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau 7.1 a 12.5.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EI GOHIRIO</b>
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>7 CEISIADAU'N CODI</b>
PENDERFYNIAD	<p><b>7.1 FPL/2021/316 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd ac adnewyddu dau adeilad amaethyddol mewn i olchdy masnachol yn ogystal â gwella'r fynediad yn Bryn Glas, Llanrhuddlad</b></p> <p><b>PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig ynghyd ag amod ychwanegol i reoli'r goleuadau allanol ar y safle.</b></p>
RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>8 CEISIADAU ECONOMAIDD</b>
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY</b>
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>10 CEISIADAU'N GWYRO</b>
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>11 CYNIGION DATBLGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR ASWYDDOGION</b>
PENDERFYNIAD	<p><b>11.1 HHP/2022/38 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Mandela, Rhosmeirch</b></p> <p><b>PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.</b></p> <p><b>11.2 FPL/2022/23 – Cais llawn a'r gyfer codi sied amaethyddol i storio peiriannau a'r dir ger Ger y Bont, Elim</b></p> <p><b>PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.</b></p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>12 GWEDDILL Y CEISIADAU</b>
PENDERFYNIAD	<p><b>12.1 FPL/2021/61 – Cais llawn ar gyfer newid defnydd adeilad allanol i 2 uned gwyliau, newid defnydd modurdy dwbl ar wahân i anecs ynghyd a datblygiadau cysylltiedig yn Tyddyn Dai, Pentrefelin, Amlwch</b></p> <p><b>PENDERFYNWYD y dylid cynnal ymweliad safle rhithwir yn unol â chais yr Aelod Lleol ac am y rhesymau a nodwyd.</b></p> <p><b>12.2 HHP/2021/303 – Cais llawn i ddymchwel ystafell ardd bresennol ynghyd â chodi swyddfa gartref/campfa yn ei le yn Pant y Bwlch, Llanddona</b></p> <p><b>PENDERFYNWYD y dylid cynnal ymweliad safle rhithwir yn unol â chais yr Aelod Lleol ac am y rhesymau a nodwyd.</b></p> <p><b>12.3 FPL/2022/43 – Cais llawn ar gyfer codi 6 uned busnes ynghyd a tirlunio a datblygiadau cysylltiedig yn Cyn Safle Heliport, Stad Ddiwydiannol Penrhos, Penrhos, Caergybi</b></p> <p><b>PENDERFYNWYD rhoi'r awdurdod i'r Swyddogion gymeradwyo'r cais, gyda amodau priodol, yn dilyn ymateb boddhaol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r traffig dyddiol cyfartalog blynyddol a ragwelir gan y datblygiad arfaethedig, a'r effaith y rhagwelir y bydd</b></p>

	<p>hyn yn ei chael ar Gyffordd 2 yr A55.</p> <p><b>12.4 FPL/2021/370 – Cais llawn ar gyfer newidiadau i caniatâd cynllunio rhif FPL/2019/212 (newid defnydd yr adeilad allanol yn llety gwyliau, yn Chwarelau, Brynsiencyn</b></p> <p><b>PENDERFYNWYD</b> y dylid cynnal ymweliad safle rhithwir yn unol â chais yr Aelod Lleol ac am y rhesymau a nodwyd.</p> <p><b>12.5 FPL/2022/36 Cais llawn i addasu ac ehangu yr adeilad presennol (gan gynnwys estyniad a gymeradwywyd fel rhan o'r cais cynllunio FPL/2020/234), codi seilos ychwanegol, creu maes parcio ceir, creu mynediad newydd i gerbydau a cherddwyr, tirlunio ynghyd â gwaith cysylltiedig yn Mona Island Dairy, 8 Parc Diwydiannol, Mona</b></p> <p><b>PENDERFYNWYD</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhoi'r awdurdod i'r Swyddogion gymeradwyo'r cais, gyda amodau priodol, ar ôl derbyn ymateb boddhaol gan yr ymgynghoreion statudol yn cynnwys y Weinyddiaeth Amddiffyn, Cadw a Dŵr Cymru;</li> <li>• bod cytundeb cyfreithiol Adran 106 yn angenrheidiol i sicrhau bod y mesurau lliniaru ecolegol oddi ar y safle yn cael eu gweithredu a'u cynnal yn briodol.</li> </ul>
--	---

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>13 MATERION ERAILL</b>
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.